**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-06-1557 a P-06-1551
Ein cyf/Our ref JMHSC/03179/25 a JMHSC/03125/25

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
deisebau@senedd.cymru

05 Ionawr 2026

Annwyl Carolyn,

Rwy'n ymateb i lythyrau gan y Pwyllgor mewn perthynas â dwy ddeiseb ar wahân ond cysylltiedig, sy'n ymwneud â'r contract deintyddol newydd, a fydd yn cael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2026:

**Deiseb P-06-1557:** Cyflwyno triniaeth ddeintyddol warantedig y GIG ar gyfer poblogaeth Cymru

**Deiseb P-06-1551:** Atal newidiadau niweidiol Llywodraeth Cymru i ddeintyddiaeth y GIG

Mae'r contract deintyddol newydd – y newid mawr cyntaf i'r contract gwasanaethau deintyddol cyffredinol mewn 20 mlynedd – yn newid sylweddol o'r contract unedau gweithgaredd deintyddol presennol (UDA). Bydd yn golygu y caiff pobl eu gweld ar sail eu hanghenion iechyd yn hytrach nag yn awtomatig bob chwe mis. Bydd yn helpu i wella mynediad at ddeintyddiaeth y GIG i'r cyhoedd, yn ogystal â bod yn deg i ddeintyddion.

Rydym wedi datblygu'r contract ar y cyd â'r GIG a chynrychiolwyr y proffesiwn deintyddol, ac wedi ymgynghori arno gyda'r cyhoedd. Cafwyd 6,427 o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus, sef un o'r niferoedd uchaf o ymatebion i ymgynghoriad, os nad yr uchaf, ers datganoli.

O ganlyniad i'r adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad hwnnw, rydym wedi gwneud rhai newidiadau pwysig i sicrhau bod pobl, sydd ag iechyd y geg da iawn, yn gallu cynnal parhad gyda'u practis deintyddol.

Fe wnes i ddatganiad llafar yn y Senedd ar y contract newydd a'r newidiadau yr ydym yn eu cyflwyno yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus diweddar.  Mae'n cynnwys gwybodaeth ynghylch datblygu llwybr i bobl sydd â lefel uchel o anghenion, y mae' n bosibl bod angen cymorth ychwanegol arnynt. Bydd pobl agored i niwed, nad ydynt yn gallu cael mynediad at

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


wasanaethau deintyddol cyffredinol, yn parhau i gael eu gweld gan y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol.

Rydym yn gwybod y gall fod yn anodd i bobl gael gofal deintyddol y GIG os nad oes ganddynt gyswllt eisoes â deintydd y GIG. Cafodd y Porth Mynediad Deintyddol ei ddatblygu i alluogi'r byrddau iechyd i gael darlun clir o'r angen sy'n bodoli yn eu hardaloedd, ac i reoli sut y caiff pobl eu dyrannu ymysg practisau deintyddol fel y daw lleoedd ar gael. Bydd hefyd yn cael gwared ar yr angen i bobl orfod cysylltu â nifer o bractisau er mwyn dod o hyd i ddeintydd y GIG yn eu hardal. Wrth gofrestru gyda'r Porth, gall pobl nodi pa mor bell maen nhw'n fodlon neu'n gallu teithio i weld deintydd y GIG. Gallwch gofrestru eich manylion ar y Porth Mynediad Deintyddol drwy glicio ar y ddolen hon: Porth Mynediad Deintyddol - Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Mae practisau deintyddol ar draws Cymru yn derbyn cleifion newydd y GIG, ac ers mis Ebrill 2022, pa gafodd amrywiad ei gyflwyno i'r contract UDA presennol, mae bron i 530,000 o gleifion newydd wedi derbyn cwrs llawn o driniaeth; ac mae 214,000 o apwyntiadau wedi'u darparu ar gyfer cleifion newydd er mwyn iddynt gael gofal brys.

Bydd y contract deintyddol newydd i Gymru yn gwella mynediad at ddeintyddiaeth y GIG i bawb, gan fod anghenion iechyd ac atal wrth wraidd y system newydd.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care